



Gofynion Dilysu Lleol ar gyfer

Ceisiadau Caniatâd Adeilad Rhestredig

Mae'r rhestr wirio hon yn nodi'r wybodaeth sydd angen i chi ei chyflwyno gyda'ch cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig o fewn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Rydym yn cadw'r hawl i ofyn am ragor o wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer penderfynu ar gais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.

Sut i wneud cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig

Gallwch wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig drwy ddefnyddio gwasanaeth 'Ceisiadau Cynllunio Cymru' Llywodraeth Cymru [Cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio | LLYW.CYMRU](#). Mae ffurflenni PDF hefyd ar gael i'w llwytho i lawr o'r gwasanaeth hwn.

Dogfennau Ategol

Mae yna **Gofynion Sylfaenol Cenedlaethol** o ran dogfennau ategol y mae'n rhaid i chi eu darparu er mwyn i'ch cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig gael ei gofrestru.

Yn ogystal, bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymofyn **Gofynion Dilysu Lleol ychwanegol** ar ffurf cynlluniau, lluniadau a gwybodaeth y mae'r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i ddisgrifio'n llawn y gwaith yr ydych yn ei gynnig. Bydd y rhain yn cynorthwyo'r Awdurdod yn ei asesiad o ran effaith eich cynnig ar yr Adeilad Rhestredig a'i leoliad. Heb y ddogfennaeth ategol atodol hon ni all yr Awdurdod ddilysu, prosesu ac asesu eich cais yn gywir.

Gofynion Sylfaenol Cenedlaethol

Rhaid i lefel y manylder a roddwch gyda'ch cais fod yn ddigon i ddisgrifio'r gwaith yr ydych yn ei gynnig fel bod yr awdurdod yn gallu asesu'r effaith y bydd eich cynnig yn ei chael ar strwythur yr adeilad presennol, ei arddull bensaernïol, y cynllun llawr/cynllun a ffabrig hanesyddol yr Adeilad Rhestredig.

Fel isafswm, rhaid i chi ddarparu'r dogfennau canlynol er mwyn i'ch cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig gael ei gofrestru. Pe bai unrhyw rai o'r Gofynion Sylfaenol Cenedlaethol ar goll, yn annigonol neu anghywir yn golygu na ellir cofrestru'r cais.

Math o ddogfen	A oes ei angen ar gyfer fy nghais?	Pa wybodaeth sydd ei hangen?
Ffurflen Gais Caniatâd Adeilad Rhestredig	Pob cais.	Rhaid cyflwyno cais ar y ffurflen Caniatâd Adeilad Rhestredig a rhaid llenwi'r ffurflen yn llawn. Y datganiad a'r dystysgrif berthnasol wedi'u llofnodi a'u dyddio.
Cynllun Lleoliad Graddfa 1:1250 neu 1:2500	Pob cais.	Map cyfoes ac ar raddfa i ffitio ar bapur maint A4 neu A3 lle bynnag y bo modd, yn dangos cyfeiriad y Gogledd. Llinell goch wedi'i thynnu o amgylch ardal y datblygiad arfaethedig. Llinell las wedi'i thynnu o amgylch unrhyw dir arall sy'n eiddo i'r ymgeisydd, yn agos at neu'n ffinio â safle'r cais.
Cynlluniau Llawr – Presennol ac Arfaethedig Graddfa 1:50 neu 1:100.	Lle cynigir dymchwel, addasiadau a/neu estyniadau.	Byddai'n ddymunol pe bai'r cynlluniau llawr Presennol a'r rhai Arfaethedig ar yr un dudalen fel bod modd eu cymharu'n rhwydd. Defnyddiau presennol ac arfaethedig pob ystafell. Lleoliad ffenestri, drysau, waliau, parwydydd mewnol ac unrhyw osodiadau neu nodweddion arbennig megis lleoedd tân, paneli, ac ati – dylid nodi'r rhain hefyd a'u harchwilio yn yr AET. Lefelau lloriau'r ystafelloedd sy'n cael eu hadeiladu, eu haddasu neu eu hymestyn, mewn perthynas â gweddill yr adeilad. Dangoswch, gyda chroeslinelliad neu gysgod unrhyw waliau, parwydydd, strwythurau neu nodweddion y bwriedir eu dymchwel, eu haddasu neu eu hymestyn.

Gweddlluniau – Presennol ac Arfaethedig Graddfa 1:50 neu 1:100	Lle cynigir dymchwel, addasiadau a/neu estyniadau.	Byddai'n ddymunol pe bai'r drychiadau Presennol a'r Arfaethedig ar yr un dudalen fel bod modd eu cymharu'n rhwydd. Cynlluniau o bob drychiad o'r adeilad y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arno, ac wedi'i nodi gyda'r cyfeiriad y mae pob drychiad yn ei wynebu ee cefn (de). Lleoliad a maint yr holl ffenestri a drysau. Lliw a math o ddeunyddiau gorffen i'w defnyddio. Lle mae potensial i effeithio ar amwynder eiddo cyfagos, rhaid i luniadau o eiddo cyfagos fod wedi'i feintio ar raddfa, neu rhaid ei gwneud yn glir nad ydynt ar raddfa.
Cynlluniau Toeon a Rhannau Graddfa 1:50 neu 1:100.	Lle mae unrhyw orchudd to neu strwythur gwaelodol (cyplau, trawstiau, trawstiau clymog, coleri, tulathau, platiau wal ac ati) yn cael eu dymchwel, eu newid neu eu hymestyn ac ni ellir dangos y newid yn ddigonol ar luniadau'r drychiadau.	Siâp a deunydd y gorchudd to. Lleoliad unrhyw ffenestri to, atriwm, ffliwiau, fentiau ac ati. Lleoliad a manylion strwythur y to, gan ddangos nifer a lleoliad y cyplau presennol ac arfaethedig, trawstiau, trawstiau clymog, coleri, tulathau, platiau wal ac ati.
Datganiad Dylunio a Mynediad	Ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. Os yw eich cynnig ar gyfer gwaith y Tu Mewn i'r Adeilad Rhestredig yn unig, yna nid oes angen elfen mynediad y datganiad.	Dylid egluro'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio sydd wedi'u cymhwyso i ymddangosiad, cynaliadwyedd amgylcheddol, gosodiad a graddfa'r gwaith. Eglurwch sut mae'r egwyddorion a'r cysyniadau dylunio uchod wedi ystyried pwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad gan gynnwys y lleoliad.

		Eglurwch sut yr ymdriniwyd â materion yn ymwneud â mynediad i'r adeilad; pa ddulliau mynediad eraill sydd wedi cael eu hystyried? Sut yr ystyriwyd polisïau perthnasol y Cynllun Lleol. Eglurhad o sut yr ymdriniwyd ag unrhyw faterion penodol a allai effeithio ar fynediad i'r datblygiad arfaethedig.
Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth – gan ddilyn y canllawiau cyhoeddedig hyn: Rheoli Newid yn Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru (llyw.cymru)	Pob Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.	Disgrifiwch arwyddocâd unrhyw asedau treftadaeth yr effeithir arnynt, gan gynnwys unrhyw gyfraniad a wneir gan eu lleoliad. Dylai lefel y manylder fod yn gymesur â phwysigrwydd yr asedau a dim mwy nag sy'n ddigon i ddeall effaith bosibl eich cynnig ar eu harwyddocâd. Ymgynghorwch â Chofnod Amgylchedd Hanesyddol y Sir, o leiaf, ac aseswch yr asedau treftadaeth gan ddefnyddio arbenigedd priodol lle bo angen. Ymgynghorwch â gwerthusiadau ardaloedd cadwraeth lle cânt eu cyhoeddi.

Rhaid i gynlluniau a lluniadau gynnwys Bloc Teitl yn nodi maint y papur a'r raddfa fetrig, pwynt gogleddol, cyfeiriad yr eiddo, ac a yw'r lluniad o'r sefyllfa "Presennol" neu'r sefyllfa "Arfaethedig".

Gofynion Dilysu Lleol - Dogfennau Ategol Atodol

Yn ogystal â'r Gofynion Sylfaenol Cenedlaethol, gall Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ofyn i chi gyflwyno dogfennau ategol atodol er mwyn disgrifio'r gwaith arfaethedig yn llawnach.

Mae cais Caniatâd Adeilad Rhestredig sydd wedi'i ddogfennu'n llawn yn fwy tebygol o gael ei ddilysu a'i asesu'n ddi-oed gan yr Awdurdod o fewn yr amserlen wyth wythnos sy'n ofynnol i wneud penderfyniad ar eich cais. Mae'n anochel y bydd ceisiadau gan yr Awdurdod am ddogfennau ategol atodol ar ôl i'r cais gael ei ddilysu yn arwain at oedi, felly mae o fudd i chi ddarparu cymaint o ddogfennau ategol â phosibl o'r cychwyn cyntaf.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn argymhell yn gryf eich bod yn edrych drwy'r rhestr hon o ddogfennau ategol atodol ac yn ystyried pa rai sy'n berthnasol i'ch cynnig. Mae angen y wybodaeth atodol hon i'n galluogi ni, a'r bobl yr ymgynghorir â hwy, i ddeall ac asesu'n llawn effaith eich cynnig ar yr Adeilad Rhestredig a/neu ei gwrtil a/neu ei leoliad.

Math o ddogfen	A oes ei angen ar gyfer fy nghais?	Pa wybodaeth sydd ei hangen?
Darluniau Hydredol a/neu Drawsdoriadol Presennol ac Arfaethedig Graddfa 1:50 neu 1:100	Ar gyfer cynigion sy'n effeithio ar du mewn Adeilad Rhestredig. Er enghraifft, lle mae dymchwel, addasu neu ymestyn yn golygu <i>gosod</i> neu <i>dynnu</i> wal, pared neu risiau; neu osod neu dynnu neu godi/gostwng llawr neu nenfwd. Ar gyfer trosi adeilad rhestredig er enghraifft ysgubor yn annedd neu swyddfa.	Lleoliad a manylion strwythurau to, llawr a nenfwd presennol ac arfaethedig. Lleoliad parwydydd ystafelloedd presennol ac arfaethedig, grisiau agoriadau drysau, cyrn simnai ac ati.
Cynlluniau a Darluniau Manwl Penodol Graddfa 1:20, 1:5 neu 1:1.	Lle bwriedir dymchwel, newid, ymestyn neu amnewid nodweddion presennol, neu osod nodweddion newydd, boed yn fewnol neu'n allanol. Er enghraifft, drysau, ffenestri, caeadau, paneli, simneiau, lleoedd tân, plastr wal a nenfwd, blaenau siopau, arwyddion, neu unrhyw fanylion eraill.	Dyluniad nodweddion presennol ac arfaethedig, a manylion deunyddiau a gorffeniadau. Dylai manylion gwaith saer ddangos y dull o adeiladu drysau newydd, ffenestri, caeadau, paneli, ac ati a chynnwys gweddlluniau ar raddfa fetrig o 1:20 neu 1:5, rhannau llorweddol a fertigol ar raddfa 1:20 neu 1:5, a phroffiliau bar gwydro/toriadau ar raddfa 1:5 neu 1:1 fel y bo'n briodol.

Arolwg topograffig neu uchder 'sbot', Rhannau'r Safle, Lefelau Safle a Lefelau Llawr Gorffenedig - Presennol ac Arfaethedig Graddfa o 1:50 neu 1:100	Pob cais sy'n ymwneud ag estyniadau neu drosi ac adeiladau newydd sy'n gysylltiedig â'r Adeilad Rhestredig neu'n gyfagos iddo. Lle mae datblygiad ar lethr serth i fyny neu i lawr. Lle cynigir unrhyw ddatblygiad islaw lefel y ddaear. Lle cynigir newid lefelau'r safle.	Arolwg Topograffig neu uchder sbot ar draws y safle i ddangos sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar leoliad yr Adeilad(au) Rhestredig. Dylai'r ad/rhannau presennol ac arfaethedig y safle, lefelau'r safle a lefelau lloriau gorffenedig, fod yn ymwneud â phwynt datwm diffiniedig i ddangos sut y bydd eich cynnig yn effeithio ar leoliad yr Adeilad(au) Rhestredig.
Ffotograffau / Ffotogyfosodiadau Cydraniad Uchel o Ansawdd	Pob cais yn ymwneud â dymchwel, addasu, ymestyn neu drosi Adeiladau Rhestredig.	Yn eich lluniau ceisiwch ddangos yr adeilad a'i leoliad, yn ogystal dangoswch fanylion y rhan benodol o'r adeilad neu'r nodweddion penodol y bydd eich cynigion yn effeithio arnynt. Disgrifiwch/nodwch beth mae'r llun yn ei ddangos e.e. blaen y tŷ, y tu ôl i'r Ysgubor, ffenest y lolfâ, lle tân y gegin ac ati.
Adroddiad Syrfewyr (Syrfewyr Achrededig Cadwraeth sy'n deall adeiladau hanesyddol)	Cynigion sy'n ymwneud â dymchwel, rhannol ddymchwel, addasu neu ymestyn sydd o natur strwythurol. Cynigion sy'n ymwneud â throsi adeilad presennol i ddefnydd newydd sy'n ymwneud â gwaith strwythurol megis addasu ysgubor ayb.	Disgrifiwch a dangoswch sut y bydd y newidiadau strwythurol yn effeithio ar y rhan(nau) o'r Adeilad Rhestredig y bydd eich cynnig yn effeithio arnynt. A fydd deunyddiau / ffabrig adeiladu hanesyddol yn cael eu symud a'u hadnewyddu? Pa strwythurau modern (ee lintolau/trawstiau ac ati) ydych chi'n bwriadu eu gosod a ble? Ar gyfer gwaith sylweddol, cynhwyswch ddatganiad dull a manylion y deunyddiau i'w defnyddio.
Adroddiad Peirianwyr (Peirianwyr Achrededig Cadwraeth sy'n deall adeiladau hanesyddol)	Cynigion sy'n ymwneud â dymchwel, rhannol ddymchwel, addasu, ymestyn neu osod nodweddion strwythurol arwyddocaol megis waliau	Cyfrifiadau strwythurol sy'n dangos pa effaith y bydd eich cynnig yn ei chael ar y strwythur presennol, pa waith adferol neu

	strwythurol, lloriau, trawstiau ac aelodau to. Cynigion ar gyfer trosi adeilad presennol i ddefnydd newydd yn ymwneud â gwaith strwythurol megis trawsnewid ysgubor ayb.	ychwanegol fydd ei angen a beth fydd hynny'n ei olygu.
Datganiad Cynllunio Ategol	Mae'n ddymunol os yw'n helpu i egluro cyd-destun eich cynnig.	Gosod y cyd-destun a'r angen am y datblygiad arfaethedig, manylion yr ymgynghoriadau gyda'r awdurdod cynllunio lleol, ymgynghoreion statudol a'r gymuned ehangach.
Amserlen Waith	Mae'n ddymunol os yw'ch cynnig yn cynnwys nifer fawr o newidiadau.	Rhestr wedi'i rhifo o bob un o'r gwaith addasu yr ydych yn ei gynnig er hwylustod.
Cynllun Tirwedd	Dymunol os yw eich cynnig yn ymwneud ag addasu gosodiad yr Adeilad Rhestredig trwy ail-lunio lefelau'r tir o amgylch yr adeilad(au), neu adeiladu neu ddymchwel waliau a ffensys, tynnu neu blannu coed a gwrychoedd ac ati.	Cynllun yn dangos y newidiadau mewn lefelau, lleoliad waliau presennol ac arfaethedig, ffensys, coed a gwrychoedd, ac ati.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â'r Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol ar bob cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Mae'r Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol yn cynnwys y canlynol: Y Gymdeithas er Gwarchod Adeiladau Hynafol (CGAH), Y Grŵp Sioraidd, Y Gymdeithas Fictoraidd, Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif, Ymddiriedolaeth y Gerddi, Adeiladau a Lleoedd Hanesyddol (y Gymdeithas Henebion gynt), Cyngor Archeoleg Prydain. Bydd y cais hefyd yn cael ei ddosbarthu i Cadw. Mae'n bosibl y bydd eich cais hefyd yn cael ei ddosbarthu neu ei roi ar gael i gyrff nad ydynt yn broffesiynol, nad ydynt yn dechnegol megis aelodau'r Pwyllgor Cynllunio, Cyngorau Cymuned, y cyhoedd neu gymdogion yr ymgynghorir â hwy ynghylch eich cynnig. Bydd eu hasesiad yn seiliedig yn gyfan gwbl ar y wybodaeth a gyflwynwyd gyda'r cais; ni fyddant o reidrwydd yn ymweld â'r safle yn bersonol.

Mae'r Awdurdod a'r cyrff/pobl y maent yn ymgynghori â hwy angen cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn deall yn llawn ac asesu/rhoi sylwadau ar effaith eich cynnig ar yr Adeilad Rhestredig a/neu ei gwrtil a/neu ei lleoliad.